PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 159 Rhif 45 Tachwedd 5, 2026 50c.

Cyngor yr hydref yr Undeb yn Aberystwyth

Cyngor yr Undeb yw'r fforwm drafod sy'n goruchwylio ac yn llywio gwaith yr Undeb trwy bedair adran benodol. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyfundebau, swyddogion a staff yr Undeb, swyddogion yr adrannau, a'r rhai a etholwyd gan y Gynhadledd. Mae'r Cyngor a'i adrannau yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, yn y gwanwyn ac yn yr hydref. Cadeirydd presennol y Cyngor yw Jean Lewis.



Adran Dinasyddiaeth Cristnogol

Dyma'r adran o fewn Cyngor Undeb yr Annibynwyr sy'n canolbwyntio ar faterion cymdeithasol, cyfiawnder, heddwch, yr amgylchedd, a sut mae Cristnogion a'r eglwysi yn ymgysylltu â'r gymdeithas ehangach. Y cadeirydd yw Robin Wyn Samuel, a'r ysgrifennydd yw Rhodri-Gwynn Jones. Trafodwyd amryw faterion pwysig yn ystod cyfarfod y Cyngor yn Aberystwyth.



Gweithgor Economi Bywyd a Newid Hinsawdd: gweithio gydag ARocha

Elusen Gristnogol sy'n gweithio gydag eglwysi i amddiffyn ac adfer yr amgylchedd yw ARocha. Mae'r elusen bellach wedi paratoi copi yn Gymraeg o'r arolwg Eco Eglwys sydd ar gael ar-lein. Fe anogwyd yr eglwysi i wneud defnydd ohono. Mae 'Blwyddyn yr Amgylchedd 2026' yr Undeb yn prysur ddirwyn i ben a rhaglen prosiect y 'Pum Peth Personol' wedi cwblhau ei amserlen arfaethedig. Trafodwyd camau nesaf yr ymgyrch, gan ystyried a oes modd cyplysu'r amcanion gyda'r hyn y mae ARocha yn ei gyflawni? Awgrymwyd y gallai'r ymgyrch gynnig ei hun fel thema ar gyfer cystadleuaeth Cwpan Denman.

Ymgyrch 'Just Peace Coalition – Time to Act'

Mae'r Undeb wedi ymuno â chlymblaid o elusennau ac eglwysi sy'n pwyso am ddiwedd ar feddiannaeth anghyfreithlon Palestina, gan alw am weddïo a gweithredu er mwyn sicrhau heddwch cyfiawn i bawb sy'n byw yn Israel a Phalestina. Yn ôl y glymblaid mae'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol a'r cynnydd mewn trais gan ymsefydlwyr Israel yn y Lan Orllewinol wedi dinistrio cymunedau Cristnogol a Mwslimaidd, a bywydau a chyfleoedd bywyd miliynau. Bydd y Llywydd yn cyfieithu a thalfyrru datganiad diweddar gan y glymblaid ar gyfer y wasg Gymraeg.

Rhwydwaith Merched Cymru: Glandeg

Lansiwyd ymgyrch Glandeg yng Nghyfarfod Blynyddol yr Undeb eleni – nodwyd fod bwriad i gynhyrchu fideo a threfnu ymgyrch Nadolig fel rhan o gamau nesaf y Rhwydwaith, gan hwyrach ddilyn patrwm 'Beauty Banks' o gael cymorth 'selebs' i hoelio sylw ar eu gwaith. A chofiwch, nid ymgyrch ar gyfer merched yn unig yw Glandeg!

Safiad tros heddwch

Cyflwynwyd datganiad ar ran yr Adran Dinasyddiaeth Gristnogol, i'w fabwysiadu gan yr Undeb yn y Cyfarfod Blynyddol eleni. Mae'n bwysig bod copi o'r datganiad yn mynd allan i'r holl eglwysi cyn gynted â phosibl, gan eu hannog i roi ystyriaeth fanwl a llawn iddo.

parhad ar dudalen 2

Adran Dinasyddiaeth Cristnogol – *parhad*

Cymorth Cristnogol

Wedi Ymgynghoriad Eglwysi Cymorth Cristnogol yn ddiweddar, a'r awgrym o newid yn strwythur yr elusen, byddai'n briodol i'r Undeb holi pennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru a oedd unrhyw gymorth y gellid ei gynnig i dîm Cymru mewn perthynas â'r broses hon.

Ystyried y cais i'r Undeb ymuno â 'Blueprint for Human Rights in Wales'

Mudiad amhleidiol yw hwn o dan arweiniad sefydliadau cymdeithasol ledled Cymru i wneud hawliau dynol yn ganolog i bolisi'r llywodraeth, dadl wleidyddol, a gwasanaethau cyhoeddus. Mynegwyd cefnogaeth i'r egwyddorion, ond siom mai llythyr uniaith Saesneg a gyflwynwyd, a gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cyffredinol fynegi hynny wrth ymateb.

Perthynas yr adran â CYTÛN

Mae'r Ysgrifennydd Cyffredinol yn cynrychioli'r Undeb fel ymddiriedolwr ac fel aelod o grŵp gweithredol CYTÛN, a chytunwyd y byddai'n briodol i symud y cyfrifoldeb o drafod materion a rhannu gwybodaeth o'r adran i'r Cyngor.

Cais ar ran yr adran i Gyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Gofynnwyd i'r Undeb wneud cais i Raglen Onesimus CWM am grant i gynnal ymchwil i gysylltiadau uniongyrchol rhwng Annibynwyr Cymru a'r fasnach gaethwasiaeth.

Gwrth-hiliaeth

Mae hyfforddiant i'w drefnu.

Prosiect Bartimeus

Gan fod datblygu 'Eglwysi cynhwysol' (yn enw Prosiect Bartimeus) dan ofal yr Adran Eglwysi a'u Gweinidogaeth, cytunwyd i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am feithrin 'Eglwysi dementia-gyfeillgar' i'r adran honno.
Bu trafod brwd am ieithwedd a phriodoldeb rhai o'r cyfrifoldebau presennol yng nghyfansoddiad yr Undeb, a dirprwywyd y Cadeirydd, yr Ysgrifennydd a'r Cyn-lywydd i adolygu ac adrodd nôl i'r Adran.

Eglwysi dwyieithog

Ysgrifennaf i gefnogi erthygl y Parchg Rhys Locke yn *Y Tyst* (8 Hydref 2006) sy'n canmol eglwysi dwyieithog a'r cyfraniad gwerthfawr a wnânt i fywyd ein cymunedau a'n cenedl.



Fel awdur yr erthygl, cefais fy magu mewn cartref lle'r oedd Saesneg yn famiaith. Er bod fy nhad yn siaradwr Cymraeg, ni wnes i erioed siarad Cymraeg ag ef. Serch hynny, cefais fy magu gydag edmygedd dwfn o'r iaith, ei diwylliant a'i lle ym mywyd Cymru. Efallai, oherwydd fy mod yn sefyll rhwng y ddau draddodiad ieithyddol, fy mod bob amser wedi cydnabod pwysigrwydd adeiladu pontydd yn hytrach na rhwystrau.

Ers bron i hanner canrif, rwyf wedi gwasanaethu tair eglwys ddwyieithog o fewn yr un ofalaeth. Wythnos ar ôl wythnos, rwyf wedi gweld gwerth cynnig addoliad, cymdeithas a gofal bugeiliol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rwyf wedi gweld pobl o gefndiroedd ieithyddol gwahanol yn addoli gyda'i gilydd, yn cefnogi ei gilydd ac yn darganfod ffydd gyffredin sy'n mynd y tu hwnt i iaith. Mae fy mhrofiad wedi dysgu i mi, pan fydd eglwys yn rhoi'r Efengyl yn ganolog iddi, bod iaith yn dod yn ffordd o groesawu a chynnwys pobl yn hytrach nag yn ffordd o greu rhaniad.

Rwyf wedi credu ers tro bod eglwys ddwyieithog yn cynrychioli rhywbeth o'r gorau o Gristnogaeth Gymreig. Mae'n anrhydeddu ein treftadaeth ieithyddol ac ar yr un pryd yn ymestyn croeso cynnes i bawb sy'n dod drwy'r drws, boed eu hiaith gyntaf yn Gymraeg, yn Saesneg neu'r ddwy.

Mae iaith yn bwysig. Mae'n cludo ein hanes, ein diwylliant a'n hunaniaeth. Mae'r Gymraeg yn un o drysorau ein cenedl ac yn haeddu cael ei choleddu a'i chefnogi. Eto i gyd, mae'r Eglwys yn bodoli at ddiben mwy. Nid achub iaith yw ein prif alwedigaeth, ond rhannu'r Efengyl a helpu i ddod â phobl i berthynas fyw ag Iesu Grist. Rhaid i eneidiau fod yn bwysicach bob amser nag iaith, pa mor uchel bynnag y gwerthfawrogwn yr iaith honno.

Dros flynyddoedd lawer, cefais nifer o sgyrsiau gyda'r diweddar annwyl Barchg Aled ap Gwynedd ynglŷn â'r materion hyn. Nid oeddem bob amser yn cytuno. Roedd Aled yn hyrwyddwr brwd o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, ac nid oedd unrhyw amheuaeth ynghylch ei ymroddiad i'r ddau. Fodd bynnag, mae un sgwrs yn parhau i fod yn arbennig o arwyddocaol i mi.

Dim ond ychydig fisoedd cyn iddo farw, mynychodd Aled wasanaeth arbennig yn un o fy nghapeli dwyieithog. Yn dilyn y gwasanaeth, siaradodd yn gynnes am yr hyn yr oedd wedi'i weld a'i brofi. Nododd ei fod bellach yn sylweddoli y dylai fod wedi dangos mwy o ddealltwriaeth, efallai, o'r gwaith a wnaed gan eglwysi oedd yn gwasanaethu eu cymunedau yn ddwyieithog. Mynegodd werthfawrogiad o'r ymdrechion i gyrraedd pobl trwy'r ddwy iaith, a chydnabu'r rôl gadarnhaol y gallai eglwysi o'r fath ei chwarae ym mywyd ysbrydol Cymru. Rwyf wedi myfyrio'n aml ar y sgwrs honno. Atgoffodd fi nad oes rhaid i gadwraeth yr iaith a chenhadaeth yr Eglwys fod yn wrthwynebwyr i'w gilydd. Yn wir, pan gânt eu trin â haelioni a doethineb, gallant gryfhau ei gilydd.

Nid y wyrth ar y Pentecost oedd bod pawb yn siarad yr un iaith, ond bod pawb wedi clywed neges cariad Duw mewn iaith y gallent ei deall. Dyna sy'n parhau i fod yn her ac yn fraint i'r Eglwys heddiw. Mae eglwys ddwyieithog lewyrchus yn dangos nad oes angen i ni ddewis rhwng parchu ein hetifeddiaeth a chyrraedd cenedlaethau newydd. Gallwn wneud y ddau. Gallwn ddathlu'r Gymraeg, gwerthfawrogi'r Saesneg, ac yn anad dim, cyhoeddi'r Efengyl i bawb.

Yn y pen draw, mesur eglwys nid yr iaith a siaredir o fewn ei waliau ydyw, ond y bywydau a gyffyrddir ac a drawsnewidir trwy ei thystiolaeth a'i gweinidogaeth.

Geoffrey Eynon

Yr Adran Gydenwadol

5 Tachwedd 2026
Rhifyn 297

I ddarllen y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn cliciwch isod:
www.cennad.cymru



Yng ngwanwyn 2025, canfu Arolwg o Agweddau Byd-eang fod 76% o oedolion mewn 25 gwlad ar draws y byd yn teimlo pryder am y defnydd cynyddol o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI / DA). Er hynny, mae llywodraeth y Deyrnas Unedig yn blaenoriaethu buddsoddi mewn AI. O Alexa a Siri i ganeuon a gynhyrchwyd gan AI a *deepfakes* o enwogion, a'r cynnydd mewn ymosodiadau seiber, mae'n annhebygol y gwelir lleihad ym mhresenoldeb AI yn ein cymdeithas yn y dyfodol agos.

Sut ydyn ni'n teimlo am hyn ... fel unigolion, fel credinwyr, fel eglwysi?

Mae'n gwestiwn pwysig i'w ofyn yn yr oes sydd ohoni, cwestiwn nad ydym bob amser yn teimlo caniatâd i'w ofyn, a'r byd o'n cwmpas 'jest yn cymryd yn ganiataol' gyflymdra eithafol datblygiad AI. Mae gan lawer yn ein heglwysi hefyd ofnau gwirioneddol a dilys am ddatblygiad AI, ac yn galw am bwyll wrth symud ymlaen, gan weld peryglon cymdeithasol, personol ac ysbrydol posib.

Mae eraill yn rhag-weld potensial cadarnhaol AI, a hyd yn oed yn credu y gall datblygiadau technolegol ein cynorthwyo i gyflawni'r 'Comisiwn Mawr' yn ein hoes ni! Enghraifft o'r math hwn o ddatblygiad yw adroddiadau diweddar gan Wycliffe Bible Translators am gynnydd anhygoel o ran y gwaith o gyfieithu'r Beibl ledled y byd erbyn hyn: i ieithoedd lleiafrifol nad oeddent cyn hynny'n meddu ar y Beibl yn eu hiaith eu hunain. Mae hyn i raddau helaeth o ganlyniad i gymorth technoleg cyfieithu AI. Fodd bynnag, mae hyd yn oed y rhai sy'n croesawu'r datblygiadau hyn yn rhybuddio bod angen parhau i fod yn ofalus iawn gyda'n defnydd o AI a bod angen goruchwyliaeth ddynol a doeth (er enghraifft, mae Wycliffe yn pwysleisio pwysigrwydd cyfieithwyr proffesiynol dynol i oruchwylio'r holl broses).

Oes lleisiau eraill o'n cwmpas all ein helpu ni fel Cristnogion i feddwl yn ddoeth ac yn Feiblaidd am dechnoleg AI? Oes wir.

Yn ddiweddar, croesawodd Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, y Parch. Ddr Sally Nelson i gyflwyno darlith flynyddol Edwin Stephen Griffiths. Mae Sally yn weinidog gyda'r Bedyddwyr ac yn ddarlithydd academaidd, â diddordeb ymchwil mewn anthropoleg ddiwinyddol. Gofynnodd y cwestiwn y gallai llawer ohonom fod yn ei ofyn mewn perthynas ag AI: "Ydw i'n eich galw'n Was neu'n Ffrind?" … ac a oes lle i anghytundeb? Ni roddodd atebion syml, du a gwyn, i ni – ond cynigiodd rai ystyriaethau allai ein helpu yn ein ffordd ymlaen.

Yn gyntaf, y cwestiwn: 'beth yw person?' Mae llawer o'r ofnau ynghylch Deallusrwydd Artiffisial yn ymwneud â'r cwestiwn a all, neu a *ddylai,* AI, gymryd lle pobl, boed mewn swyddi, neu hyd yn oed wrth ysgrifennu pregethau (mae'n digwydd!). Tynnodd Sally ein sylw at Ioan 15:15 pan ddywed Iesu, 'Nid yw'r gwas yn gwybod beth y mae ei feistr yn ei wneud, [ond] yr wyf wedi eich galw yn gyfeillion'. Atgoffodd Sally ni ein bod wedi ein creu ar ddelw Duw, ac fel rhan o hynny rydym yn cael ein gwahodd i gymdeithas ag Ef. A allai AI fyth ddod yn fwy na gwas – a allai fyth fod yn ffrind i ni? Barn Sally yw hyn: er y gall AI ddynwared syniadau ac ieithwedd ddynol yn wych, rhodd gan Dduw yn unig yw dynoliaeth a natur 'person'.

Yn ail, ein defnydd ymarferol o AI. Rhybuddiodd Sally fod yna gwestiynau moesol y dylid eu gofyn wrth symud ymlaen. Er y gellir cyflawni pethau gwych gyda chymorth AI (e.e. mewn meysydd meddygol), cyngor Sally oedd y byddai'n ddoeth parhau i ofyn cwestiynau beirniadol am berthynas ein cymdeithas ag AI, yn ogystal â'n perthynas ag ef fel credinwyr ac eglwysi. Ar lefel bersonol, er enghraifft, gall defnyddio 'bots' sgwrsio AI gynyddu dibyniaeth ar atebion cyflym a hawdd, gan effeithio ar ddatblygiad meddyliol a beirniadol unigolyn, yn enwedig plant ac ieuenctid. Ar lefel gymdeithasol, dim ond data sydd eisoes ar gael y mae peiriannau chwilio sy'n cael eu gyrru gan AI yn medru eu sganio, gan dueddu yn aml iawn i ddefnyddio'r ffynonellau mwyaf poblogaidd. Pa naratifau y gallai hyn eu bwydo yn ein cymdeithas a'n heglwysi? Felly, roedd Sally yn ein gwahodd fel credinwyr i fod yn graff wrth ystyried y materion hyn.

Cyflwynodd Sally hefyd bedair enghraifft o ystyriaethau moesol a allai ein helpu wrth ddechrau'r broses hon. Y rhain yw:

- awdurdod: e.e. gwybodaeth gan bwy sy'n cael ei blaenoriaethu yn ein defnydd o AI?
- gwirionedd: oes potensial i wirionedd gael ei wyrdroi?
- adnoddau: pa adnoddau sydd eu hangen i gynnal AI?
- perthynas: sut allai rhai perthnasoedd ddioddef wrth i ni droi at AI?

Er ei bod hi'n anodd penderfynu weithiau beth yw 'da' a 'drwg' mewn perthynas â'r defnydd o AI, mae Sally yn ein hannog, fel unigolion a chymunedau o gredinwyr, i ddatblygu 'moeseg y galon' wrth ei ystyried, gyda chymorth yr Ysbryd Glân a Gair Duw. *Galwad i weddïo a dirnad gyda'n gilydd yn wir.*

Sioned Graves

(Cyhoeddwyd gyntaf yn *Y Negesydd*, Haf 2026)

Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg



Meithrin calon ddi-drais

Cyfres o chwe astudiaeth gan **Rosa Hunt** ac **Ed Kaneen**, Caerdydd, sy'n ystyried y cwestiwn:
Sut gallwn ni feithrin calon ddi-drais?

Calon ddi-drais 2

Darlleniad: Mathew 5:38–42

Dyma'r ail mewn cyfres o chwe astudiaeth sy'n ystyried y cwestiwn: sut gallwn ni feithrin calon ddi-drais? Yn yr astudiaeth gyntaf, fe wnaethon ni ystyried gorchymyn Iesu i garu ein cymydog fel ni ein hunain. Gofynnon ni sut gallai caru ein hunain ein helpu ni i ymateb yn well i bobl sy'n anghytuno â ni. Heddiw, rydyn ni'n mynd i ystyried beth sydd gan Iesu i'n dysgu am beidio ateb trais â thrais, ac awgrymu taw **gwrando'n dda** yw rhan bwysig o hynny.

Efallai eich bod yn pendroni beth sydd a wnelo troi'r foch arall â gwrando'n dda?

Mae gorchymyn Iesu i droi'r foch arall yn codi mewn sefyllfa o wrthdaro difrifol, pan fydd rhywun wedi ymosod yn gorfforol arnom ni. Ond, o dan y gorchymyn i droi'r foch arall, mae 'na haen gudd fel trysor mewn maes: os dwi'n deall anghenion y person crac, mae'n bosibl i mi drawsffurfio'r gwrthdaro yn sefyllfa lawer gwell. Ac un ffordd wirioneddol bwysig o ddeall anghenion y person sy'n siarad â mi yw drwy wrando'n astud ar yr hyn y mae'n ei ddweud.

Gall hon fod yn neges anodd iawn i'r rhai sy'n profi camdriniaeth ar hyn o bryd neu sydd wedi dioddef hynny yn y gorffennol. Felly, mae'n bwysig dweud o'r dechrau nad ydym yn bendant yn argymell y dylai unrhyw un aros mewn sefyllfa beryglus. Os ydych chi mewn perygl, yna dylech chi gymryd camau i'ch cadw eich hun yn ddiogel.

Ond rydym yn rhag-weld efallai'r math o sefyllfa lle mae rhywun yn yr eglwys yn mynd yn flin gyda chi mewn cyfarfod, neu efallai sgwrs amser bwyd teuluol am wleidyddiaeth, a bod y person sy'n siarad â chi yn dechrau codi ei lais, er enghraifft. Beth allwn ni ei wneud i atal y sefyllfa rhag mynd o ddrwg i waeth?

Gan feddwl yn ôl at y tro diwethaf, y peth cyntaf yw nodi beth sy'n digwydd yn fy nghalon i, a chydnabod sut dwi'n teimlo: bregus, ofnus, crac ... A'r cam nesaf yw ceisio aros yn ddigon agored ac yn ddigon tawel i wrando o ddifrif ar yr hyn y mae'r person arall yn ei ddweud. **Pam** maen nhw'n codi eu llais? Sut maen **nhw**'n teimlo? **Pa anghenion** sydd y tu ôl i'w dicter?

Ffordd dda o wneud hyn yw dysgu gwrando'n dda. Pe bai rhywun yn fy nharo i neu'n cymryd fy nghôt neu'n fy ngorfodi i gerdded gyda nhw, fy ngreddf fyddai mynd mor bell i ffwrdd oddi wrth y person hwnnw â phosibl. Ond yn ein darn ni, mae'n ymddangos bod Iesu'n ein hannog i oresgyn ein hofn a'n dicter, ac i aros yn y sefyllfa. Gwyddom o gymeriad ac addysg Iesu nad oedd ef byth yn cymeradwyo cam-drin na thrais. Felly, mae'n rhaid bod y darn hwn yn golygu bod Iesu'n ein hannog i gynnal deialog â'r rhai sy'n anghytuno â ni.

Hefyd, mae'r diwinydd Walter Wink wedi tynnu sylw at y ffaith, er y gallai milwyr Rhufeinig orfodi rhywun i gerdded un filltir gyda nhw, roedd gwaharddiad arnynt rhag gorfodi sifilwyr i gerdded ymhellach. Felly, mae'r ffaith fod Iesu'n ein hannog i gerdded dwy filltir yn golygu ei fod yn ein hannog i barhau mewn deialog gyda'r rhai sydd yn ein erbyn.

Cwestiwn:
• Pa fath o berson ydych chi: y math o berson sy'n osgoi gwrthdaro ar bob cyfrif, ac yn cerdded ymaith oddi wrth sefyllfaoedd anodd, neu'r math o berson sy'n ei ffeindio hi'n anodd i beidio ag ymyrryd mewn dadl?

Meddyliwch am enghraifft bersonol lle roeddech chi'n rhan o ddadl, neu'n agos iawn at wrthdaro rhwng pobl eraill. Rydyn ni wedi awgrymu dwy enghraifft: mae rhywun yn yr eglwys yn mynd yn flin gyda chi mewn cyfarfod neu efallai sgwrs amser bwyd teuluol am wleidyddiaeth – ond yn sicr byddwch chi'n gallu meddwl am eraill. Yn y sefyllfaoedd hyn, sut gallai gwrando'n ofalus ar bobl eraill a cheisio deall eu hanghenion nhw fod wedi eich helpu chi i droi'r foch arall – sef ymateb heb ddicter neu drais?

Gweddi:
Helpa ni i wrando'n astud ar eraill,
yn enwedig y rhai sy'n anghytuno â ni
neu'n gwneud inni deimlo'n grac.
Helpa ni i fod yn ddigon ddewr
i aros mewn deialog,
ac yn ddigon doeth
i wybod pryd ddylen ni
gerdded i ffwrdd.
Ti yw ein cymorth a'n hesiampl ni,
Arglwydd Iesu Grist,
ffynhonnell pob cariad. Amen.

BBC radio cymru S4C

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 8 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Euron Hughes, Llanuwchllyn

Oedfa Radio Cymru
Sul, 8 Tachwedd, am 12:00yp
Gwasanaeth o dan arweiniad Nia Catrin Williams, Pen-y-groes

Cyhoeddiadau Radio a Theledu, Sul, 8 Tachwedd 2026

S4C
Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 8 Tachwedd am 7.30yh
Ar Sul y Cofio, cawn gyfle i gymryd seibiant, myfyrio a gwerthfawrogi aberth ein cyndeidiau yn y rhyfeloedd mawr a'r holl ryfeloedd ers hynny. Daw'r canu mawl o Gapel y Nant, Clydach, a chawn berfformiad o eiriau arbennig Waldo Williams, 'Y Tangnefeddwyr'.

Y fath falchder



llun: Wikipedia commons

Cyhoeddwyd dair wythnos yn ôl y caiff Gwobr Heddwch Nobel ei chyflwyno eleni i Navanethem (Navi) Pillay, gwraig o Dde Affrica a fu'n un o farnwyr y Llys Troseddol Rhyngwladol. Nid yn annisgwyl, roedd Donald Trump yn gandryll. Yn union fel y llynedd! Ac os byw ac iach, mae'n debygol o fod felly'r flwyddyn nesaf a'r flwyddyn ganlynol hefyd. Rai dyddiau cyn y cyhoeddiad, roedd wedi dweud am aelodau Pwyllgor y Wobr: "Mae ganddyn nhw enw am beidio â rhoi'r Wobr i bobl fel fi." Wrth gwrs bod ganddyn nhw! A diolch byth am hynny.

Ers y siom o beidio â derbyn y wobr y llynedd mae Trump wedi ymosod ar Venezuela ac Iran. Ond mae'n dal i fynnu ei fod yn gymwys, gan hawlio'i fod ar fin datrys y rhyfel rhwng Rwsia ac Wcráin ynghyd â'r rhyfela yn y Dwyrain Canol (heb gydnabod, wrth gwrs, ei ran ef ei hun yn y rhyfel yn Iran). Y fath ragrith. Y fath dwpdra. A'r fath falchder sy'n peri iddo gredu nid yn unig ei fod yn haeddu'r Wobr, ond nad oes neb arall ar wyneb daear yn fwy teilwng ohoni nag o. "Nid ymffrostio ydw i," meddai, "dim ond deud y ffeithiau."

Mae balchder Trump yn syfrdanol a ffiaidd. Ond yr hyn sy'n wirioneddol ddychrynllyd ydi'r posibilrwydd y medrwn ni ein hunain fod yn debyg iddo. Nid yn yr un ffordd yn union, ac nid i'r un graddau. Wedi'r cwbl, prin iawn ydi'r bobl sydd wir yn credu eu bod nhw eu hunain ym mhob ffordd yn well na phawb arall.

Ond mor beryg ydi'r mesur lleiaf o falchder sy'n gwneud i ni feddwl ein bod yn deilwng, nid o wobrau ac anrhydeddau'r byd hwn, ond o'r bendithion sydd gan Dduw ar ein cyfer. Y gwir ydi nad oes neb ohonom yn haeddu'r un o'i fendithion tymhorol nac ysbrydol. Pe byddai eu derbyn yn dibynnu arnom ni, hebddyn nhw y byddem. Ond y gwir hefyd ydi mai bendithion gras ydi bendithion Duw. Ac ystyr 'gras', yn syml iawn, ydi rhywbeth nad ydym yn ei haeddu. Mae hynny'n cynnwys pob cynhaliaeth faterol a phob braint a bendith ysbrydol a ddarparwyd ar ein cyfer yn yr Arglwydd Iesu Grist.

Mor syfrdanol ac mor chwyldroadol ydi'r Efengyl sy'n troi popeth wyneb i waered wrth gynnig y cyfan i bobl gwbl annheilwng. Does ryfedd i'r Apostol Paul ddweud wrth yr eglwys yng Nghorinth fod yr Efengyl yn dramgwydd i rai ac yn ffolineb i eraill (1 Corinthiaid 1:23).

John Pritchard
(Llais Bro Aled*, 1 Tachwedd 2026*)

Gair y Dydd 2027

Mae'n adeg trefnu ar gyfer dosbarthu *Gair y Dydd* am 2027. Hyderwn fod y cynnwys eleni wedi bod o fendith i chi, a diolchwn i awduron 2026 am eu gwaith.

Mae *Gair y Dydd* yn llyfryn hwylus iawn, ac yn cynnwys darlleniad o'r Beibl a myfyrdod byr ar gyfer pob dydd o'r flwyddyn. Gellir ei ddefnyddio fel deunydd defosiwn personol a hefyd fel rhan o wasanaeth o addoliad cyhoeddus.

Yn anffodus, mae'r cylchrediad wedi lleihau i 360 copi erbyn hyn a chyfartaledd oed ein tanysgrifwyr dros 70 oed! O'r herwydd, mae angen mwy o danysgrifwyr arnom. Beth am roi tanysgrifiad yn anrheg Nadolig neu ben blwydd i rywun?

£12 yw'r pris ar gyfer 4 rhifyn yn 2027. Cewch dalu drwy'r banc neu â siec; wele'r manylion:
Pwyllgor Darlleniadau Beiblaidd, 10674443, 40-08-09
Byddwn yn falch o dderbyn y ffurflen isod mor fuan â phosib.

Gwilym Dafydd, Trysorydd
Ffôn: 02920 657108
E-bost: eirianagwilym@gmail.com

……

Gair y Dydd 2027

Tanysgrifiad: £12 y flwyddyn am UN set, h.y. copi bob chwarter
Carwn archebu …… set o *Gair y Dydd* ar gyfer 2027.
Amgaeaf siec/taliad ar-lein am £……..

Enw: ……

Cyfeiriad: ……

……


Cyfeiriad ebost: ……

Rhif ffôn: ……

Dychweler y ffurflen hon, ynghyd â siec yn daladwy i 'Gair y Dydd' neu wedi talu ar-lein drwy'r banc, at:
Gwilym Dafydd, Trysorydd 'Gair y Dydd', Hengoed, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 7EJ

WRTH Y LLYW #21

Cymorth Cristnogol yn cerdded ymlaen



Diwedd Medi daeth cyfle i gynrychioli Undeb yr Annibynwyr Cymraeg mewn cyfarfod arbennig dan nawdd Cymorth Cristnogol yn eglwys Saint George, Leeds. Diben y cyfarfod oedd rhannu strategaeth fydeang newydd y mudiad allweddol hwn, sef Cerdded gyda'n Gilydd neu *Walking Together* a hynny yng nghwmni'r Cadeirydd newydd, yr Archesgob Thabo Makgoba o Cape Town (*yn y llun*) a'r Prif Weithredwr newydd, Patrick Watt.

Cwmni pobl amrywiol

Roedd cael bod yng nghwmni pobl mor wych o amrywiol, mor beryglus o wahanol yn wefr. Cefais flas ar safbwyntiau, profiadau, argyhoeddiadau gwahanol; mor ddieithr i mi ag oedd y fy argyhoeddiad, profiad a safbwynt anghydffurfiol Cymreig i'r rhan helaethaf o'r cwmni. Bu cytuno ac anghytuno, gweld a chyd-weld, deall a methu deall. Bu'r trafodaethau'n fuddiol iawn a dim ond wedi dychwelyd i nyth y cyfarwydd sylweddolais fod y cyfan wedi digwydd ar ddydd gŵyl Jerôm (30 Medi).



Cyfraniad mawr Sant Jerôm

Ysgolhaig, asgetig, cyfieithydd arloesol; cymeriad onglog, pendant ei farn, mawr ei gyfraniad oedd Jerôm (*Llun: St Jerome – Matthias Stom 1635*). Ei gampwaith oedd cyfieithu'r Beibl i Ladin o'r ieithoedd gwreiddiol, y Roeg a'r Hebraeg. Bu wrth y gwaith am dros ugain mlynedd – nid oedd pwysau'r gwaith yn mennu dim ar ei benderfyniad diysgog, a'i ddalatrwydd di-ildio. Yr enw a roddir ar gyfieithiad Jerôm yw'r Fwlgat. Ystyr y gair yw'r 'Cyfieithiad Cyffredin'. (Yn ogystal, paratôdd lawer o esboniadau trwyadl ar y gwahanol lyfrau yn y Beibl; esboniadau a ddefnyddir hyd heddiw.) Bu llawer iawn o wrthwynebiad i'r Fwlgat. Yng nghyfnod Jerôm, fel yn ein cyfnod ninnau, mae'n anodd i bobl ffydd dderbyn yr arloesol. Glynu wrth yr hen yw temtasiwn parod crefyddwyr pob oes.



Weithiau'n bigog ond byth yn ddiflas!

Gallasai Jerôm fod yn bigog, mae'n debyg. Y Parchg Nancy Frausto (Cyfarwyddwr Astudiaethau Latinx a Darlithydd mewn Gweinidogaeth Amlddiwylliannol; Athrofa Awstin, Texas), fynegodd y peth orau: *Jerome was seldom pleasant, but at least he was never dull*. Ymhlyg yn y geiriau mae neges bwysig am natur Eglwys Iesu Grist: mae croeso ynddi heddiw, fel erioed i'r da a'r drwg, y call a'r twp, y pwyllog a'r gwyllt, y serchog a'r swrth, y llwfr a'r glew. Yng Nghrist, diolchwn i Dduw fod gan ddrain rosynnau, yn hytrach na dannod Duw fod gan rosynnau ddrain. Yn ein hamrywiaeth mae ein cyfoeth, ein cyfle, ein cenhadaeth.



Cerdded yn lle sefyll

O dan arweiniad y Prif Weithredwr newydd, Patrick Watt (*yn y llun*) fe drodd strategaeth flaenorol Cymorth Cristnogol, *Standing Together* yn strategaeth newydd, *Walking Together*. Da hyn. *Solvitur ambulando* meddai Awstin Sant: *Datrysir y peth drwy gerdded*. Un o fendithion pennaf bywyd yw cerdded, ychwanegir bendith at fendith wrth gerdded mewn cwmni. Roedd yr Americanwr Henry David Thoreau yn gerddwr o fri. Nododd Thoreau fod y ferf Saesneg *to saunter* (crwydro'n hamddenol) yn tarddu o *sainte terre*: y tir sanctaidd. Cydgerddwn gydag ac oherwydd Cymorth Cristnogol i dir sanctaidd – byd sanctaidd – byd yn gyfan ac yn gyflawn o gyfiawnder a heddwch. Yn *Wanderlust* (Granta; 2022) – llyfr hynod ddiddorol am hanes cerdded – mae Rebecca Solnit yn disgrifio cerdded fel cyfarfyddiad a sgwrs rhwng tri chymeriad – y meddwl, y corff a'r byd.

Boed ein parodrwydd i gydgerdded, nid yn unig yn gyfle i ddatrys tlodi, ond ei ddileu. Mae *Walking Together* Cymorth Cristnogol yn gyfle i ni chwarae ein rhan yn ail-greu'r byd – byd o gyfiawnder, heb unrhyw amodau na chyfyngiadau.

Owain Llŷr

Golygyddol

Mi ges brofiad diddorol yn ddiweddar mewn gwasanaeth ar fore Sul – Sul a phrofiad y gwnes ei fwynhau'n llwyr.



Sul bendithiol

Gwasanaethu yr oeddwn yn Ebeneser, Caerdydd, ac yn y bore fe neilltuwyd amser i holi'r 'pregethwr gwadd.' Ac fe'm holwyd gan brif olygydd *Y Tyst'* sydd, fel y gwyddom, yn weinidog Ebeneser – fy ffrind a'm cydweithiwr Alun Tudur. Dyna'r peth gorau a ddigwyddodd i mi mewn oedfa erioed, os ca' i fentro awgrymu! A gwnaeth yr holi a'r ateb i mi feddwl am fy ngweinidogaeth dros gyfnod o bron i ddeugain mlynedd.

Amser i ystyried

Mi atebais un o gwestiynau Alun drwy ddweud bod 'na rai pobl yn benodol wedi fy arwain yn anuniongyrchol i gyfeiriad y weinidogaeth – yn gyntaf fy nhad, oedd, yn digwydd bod yn weinidog, a thrwy ei bregethu grymus a'i arweiniad diogel, fedra i ddim llai na mynegi fy niolch llwyraf iddo, gan gynnwys fy mam hefyd am ei gofal. Enwais hefyd un athro Ysgrythur (fel yr oedd y pwnc yn cael ei adnabod yn y cyfnod hwnnw) – Robert Capon yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch. Yna Arfon Jones, Caerdydd mewn sgwrs pan oedd yn Swyddog Ieuenctid yr Annibynwyr yn yr wythdegau. Ac yna oedfa arferol ar Sul yn nechrau Mawrth 1983 yng Nghapel Coffa, Cyffordd Llandudno, lle'r oedd fy nhad yn weinidog ar y pryd, a'r Dr R. Tudur Jones yn arwain yr oedfa a phregethu.

Newid cyfeiriad

I gyfeiriad y byd cerddorol y byddwn i wedi troi heb ddim amheuaeth oni bai am lais drwy leisiau yn fy ngalw i gyflwyno fy hun i'r weinidogaeth, ac ar y pryd, fel yn hanes llu mawr o bobl eraill ar hyd y blynyddoedd, y ffordd gryfaf o ddangos fy mod yn ymrwymo i ddilyn Iesu oedd llwybr y weinidogaeth draddodiadol, a hynny mewn gofal eglwys, ac yn fy hanes i – eglwysi.

Diolch

Wrth edrych yn ôl dros ysgwydd y blynyddoedd, mae gennyf le mawr i ddiolch i'r eglwysi a'm cynhaliodd ymhob ffordd ar hyd y blynyddoedd, er i mi, fel sawl gweinidog arall, gael pyliau go isel oedd yn gwneud i mi ofyn a oeddwn yn gwneud y gwaith iawn ac yn y ffordd iawn. A do, bu ond y dim i mi ar un cyfnod roi'r gorau iddi oherwydd ambell i sefyllfa, a diolch am glustiau fu'n fodlon gwrando yn y cyfnod hwnnw...

Her

Oddi ar y silff y diwrnod o'r blaen, cydiais yn un o lyfrau Gwyn Erfyl – *Dyfroedd Byw a Cherrynt Croes* a gyhoeddwyd gan Wasg Gee yn y flwyddyn 2000. Ynddo y mae pennod a ysgrifennwyd pan oedd Gwyn tua deugain oed yn 1964 o dan y pennawd 'Cadw dy Grist.' Ar y pryd dwi'n meddwl bod yr awdur yn weinidog ym Mrynaman, ac y mae'n arllwys ei bryderon, nid yn benodol am Iesu Grist, ond am y weinidogaeth fugeiliol fel ag yr oedd hi, a bod rhai yn disgwyl ymddygiad gwahanol gan weinidog, a dyfynnaf: 'Mae 'na'r fath beth yn bod â siarad sanctaidd (heb sôn am y peswch ag oedd yn gysylltiedig ag o gynt), y cerddediad sobr, araf; y dillad llwyd, yr het a'r ambarél, y wên nawddogol, ffurfiol ...' Daw'r bennod i ben gyda'r geiriau: 'Mae rhai cannoedd o ieuenctid canol yr ugeinfed ganrif wedi profi fod ganddyn nhw ddigon o arwriaeth i gyflawni hyd at ddioddefaint [fyddwn i'n credu mai cyfeirio y mae yma at ymgyrchwyr Cymdeithas yr Iaith, ond rwy'n barod i gael fy nghywiro]. Nid yr hyn sy'n anodd yng ngofynion Crist sy'n llethu ein goreuon, ond ein myrdd defodau diystyr, ein sŵn wylofus, a'n tuedd i gredu mai gair arall am bendefigaeth ysbrydol yw STARTSH.'

Wnes i, diolch i Dduw, erioed amau Iesu Grist, 'na chael fy simsanu braidd' yn hynny, ond rwy'n gofyn heddiw os mai'r weinidogaeth fugeiliol draddodiadol, yn y ffordd y ces i fy magu yn ei chysgod, ac wedi byw drwyddi, yw'r ffordd orau i ddod ag Iesu Grist i fywyd y Gymru sydd wedi troi i fod yn un arswydus o seciwlar. Ac o gofio ein bod wedi colli o leiaf dair cenhedlaeth o'n capeli bellach, ein braint ydi mynd ag Iesu i ganol cyfnod newydd mewn ffyrdd newydd.

Iwan Llywelyn





Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru**

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
***Ffôn:* 01766 513138**
***E-bost:* IwanLlew@aol.com**

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
***Ffôn:* 01267 232577 / 0781 751 9039**
***E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk**

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru**

Dalier Sylw!
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Cwrdd Chwarter Hermon

Roedd cynrychiolaeth dda o eglwysi Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin yng nghyfarfodydd y prynhawn a'r hwyr yng nghapel Hermon, sydd wrth ymyl y ffordd brysur o Gynwyl Elfed i Gastell Newydd Emlyn. Ar ôl i'r Parchg Gareth Ioan, Cadeirydd y Cyfundeb, groesawu pawb, fe ganwyd emyn, cyn i Suzanne Davies ddarllen o'r Gair a thraddodi gweddi gan Helen Evans. Yr organydd yn y prynhawn oedd Sheila Evans.

Hanes Hermon heddiw

Cafwyd hanes yr achos gan Bryan Davies. Roedd hi'n hyfryd clywed bod y plant yn weithgar iawn yn yr eglwys, gyda'r ysgol Sul yn cwrdd trwy'r flwyddyn heblaw am fis Awst. Buont yn plannu hadau yn y fynwent; yn cystadlu'n flynyddol yng nghystadleuaeth Cwpan Denman; yn cymryd rhan yn y Gymanfa Bwnc a'r Gymanfa Ganu yng nghylch Hermon, Blaenycoed a Bryn Iwan; yn y gwasanaeth Gŵyl Ddewi a thrip yr ysgol Sul. Cynhelir bore coffi Macmillan bob blwyddyn ac adeg y Nadolig mae grwpiau yn mynd o amgylch yn canu carolau i godi arian at achosion arbennig. Mae'r festri yn cael ei defnyddio gan nifer o fudiadau, mae'r maes parcio ar gael i bawb yn y pentref, ac mae'r fynwent yn derbyn gofal da. Mae gan Hermon 56 o aelodau ar hyn o bryd, ac maent yn edrych ymlaen at dderbyn criw o bobol ifanc cyn bo hir.

Dymuno'n dda a chydymdeimlad

Wrth ddiolch i Bryan am ei gyflwyniad, dymunwyd yn dda i'r Parchg Guto Prys ap Gwynfor, gweinidog Hermon oedd yn treulio cyfnod yn yr ysbyty. Gyda thristwch y nodwyd marwolaeth y Parchg Trefor Jones Morris, un o gyn-weinidogion Hermon. Estynnwyd cydymdeimlad dwys â'i deulu.



Adroddiadau

- Mudiad Ieuenctid Cristnogol – Adroddodd Suzanne Davies bod noson mabolgampau MIC yn neuadd Maes y Gwendraeth wedi bod yn llwyddiant mawr gyda dros 50 o blant yn cymryd rhan. Fe'n hatgoffwyd bod MIC yn dal i chwilio am weithiwr ieuenctid llawn amser.
- Cymorth Cristnogol – Penderfynwyd annog yr eglwysi i gynnal casgliad tuag at Apêl Cymorth Cristnogol Nepal, ac i gasglu tuag at yr apêl yn ein Cwrdd Chwarter nesaf ym mis Tachwedd, gyda'r Cyfundeb yn matsio'r swm a gasglwyd.
- Swyddog Cyhoeddusrwydd y Cyfundeb – Wedi cysylltu â Geraint a Caroline Rees am eu hymweliad â'r Cwrdd Chwarter; adrodd am y Sul Sbesial i'r *Tyst*; llunio poster ar gyfer y Cwrdd Chwarter a'i ddosbarthu ar e-bost i dros 100 o bobl; diweddaru gwefan y Cyfundeb a gafodd dros 215,500 o 'hits' yn y 12 mis diwethaf.
- Adroddiad y Trysorydd – Derbyniwyd adroddiad ariannol gan Huw Michael yn absenoldeb Tom Dafis y Trysorydd. Atgoffwyd yr eglwys am y tâl aelodaeth o 20c yr aelod. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Cynnal yn diolch am y cyfrannid o £150 y llynedd. Cefnogi Cyfle – Cyhoeddwyd bod y Priordy wedi gwneud cais am grant ar ran Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin
- Sul Sbesial – Bu'n achlysur arbennig iawn gyda Rhian Evans yn annerch. Diolchwyd i bawb a fu ynglŷn â threfniadau'r prynhawn.
- Croeso i'r Cwrdd Chwarter nesaf – Estynnodd Catrin Heledd Jones wahoddiad cynnes iawn i'r Cwrdd Chwarter a gynhelir yng nghapel y Priordy ar ddydd Iau 26 Tachwedd (y Gynhadledd am 10.30 a'r Cyfarfod am 1.30).

Cyfarfod yr hwyr

Yn dilyn croeso gan y Cadeirydd, a chanu emyn i gyfeiliant Gwenan Evans wrth yr organ, darllenodd a gweddïodd Lois Evans. Yna bu Geraint a Caroline Rees o'r Tabernacl, Efailisaf, Pontypridd yn sôn am amryw ffyrdd yr aelodau o weithio o fewn yr eglwys fywiog hon, fu heb weinidog ers dros 70 mlynedd. (Gweler adroddiad llawn a lluniau yn rhifyn 8 Hydref o'r *Tyst*).

Diolchodd Iona Morgan, Gibeon i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y ddau gyfarfod, am y bwyd rhwng y cyfarfodydd, ac yn arbennig i Geraint a Caroline Rees.

Cyrddau Chwarter 2027	Lleoliad	Amser
11 Mawrth	Capel Peniel	10.30 a 1.30
13 Mai	Capel Henllan Amgoed	4.00 a 7.00
9 Medi	Capel Ebeneser, Abergwili	4.00 a 7.00
25 Tachwedd	Capel Cana, Bancyfelin	10.30 a 1.30

Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.